

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal

Rhagfyr 2021



# 1. Cefndir

## Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU (y Bil)<sup>1</sup> yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ei noddi.

2. Wrth drafod ei ddiben, mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi fel a ganlyn:

*"...to give effect to the policies that were set out as part of the NHS's recommendations for legislative reform following the Long Term Plan and in the White Paper 'Integration and Innovation: Working together to improve Health and Social Care for all' published in February 2021."*<sup>2</sup>

3. Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2021. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd. Disgwylir i'r ail ddarlleniad gael ei gynnal ar 7 Rhagfyr.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.

5. Ar 1 Medi 2021, gosododd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>3</sup> (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 4 Tachwedd 2021. Yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2021, adolygodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 11 Tachwedd.<sup>4</sup> Ar 29 Hydref 2021, ysgrifennom at y Pwyllgor Busnes i'w gynghori, oherwydd nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol yr oeddem yn eu

---

<sup>1</sup> [Y Bil Iechyd a Gofal, fel y'i cyflwynwyd](#) [Bil Tŷ'r Cyffredin 140]

<sup>2</sup> [Bil Iechyd a Gofal, Nodiadau Esboniadol](#), Gorffennaf 2021

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Iechyd a Gofal](#), Medi 2021

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Yr amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal](#), Medi 2021; Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal](#), Medi 2021

---

hystyried ac oherwydd ein bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog am wybodaeth bellach, efallai na fyddem mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 11 Tachwedd.<sup>5</sup> Ar 4 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ymhellach i 16 Rhagfyr.<sup>6</sup>

## **Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer**

---

### **Barn Llywodraeth Cymru**

**7.** Mae paragraffau 7 i 67 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- cymal 75 (Darpariaethau tacluso ac ati ynghylch cyfrifon rhai cyrff y GIG)
- cymal 78 (Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth: diddymiadau ac ati)
- cymal 85 (Systemau gwybodaeth meddyginiaethau)
- cymalau 86 i 92 (Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i drosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau)
- cymal 120 (Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol)
- cymal 123 (Rheoleiddio gofal iechyd a darpariaethau cysylltiedig)
- cymal 125 ac Atodlen 16 (Hysbysebu bwyd a diod llai iachus)
- cymal 127 (Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr: pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir)
- cymal 130 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol)

### **Barn Llywodraeth y DU**

**8.** Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi nodi'r cymalau hyn fel darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd, ac eithrio cymalau 75, 123, 125 a 130.<sup>7</sup>

---

<sup>5</sup> [Llythyr at y Pwyllgor Busnes](#), 29 Hydref 2021

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal](#), Tachwedd 2021

<sup>7</sup> Gweler Nodiadau Esboniadol y Bil Iechyd a Gofal

---

## Y rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil

---

**9.** Mae paragraff 67 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Yn ôl y Memorandwm:

*"Er bod rhinwedd i rai o'r darpariaethau yn y Bil, er enghraifft mewn perthynas â gordewdra, gwybodaeth am fwyd i gwsmeriaid a diddymu deddfiadau diangen (yn ymwneud ag anghenion cleifion am ofal a chymorth i'w hasesu cyn eu rhyddhau o'r ysbyty), mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai nifer o'i ddarpariaethau yn cael effaith niweidiol ar y setliad datganoli."*

**10.** Mae'r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil, ac mae'n nodi y gallai fod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol:

*"Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell cydsyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae hyn ar y sail, er bod rhai o'r cymalau o gymorth i Gymru, fod nifer o gymalau sy'n peri pryder:*

- cymalau yn y Bil sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd;*
- cymalau yn y Bil a allai effeithio'n negyddol ar gyrff y GIG yng Nghymru (er enghraifft y cymalau sy'n ymwneud â Systemau Gwybodaeth am Feddyginiaethau, Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol a rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd).*

*Mae anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar rai o'r materion hyn a bydd gwaith pellach gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y pryderon hyn yn parhau yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd a bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei gyflwyno os bydd angen."<sup>8</sup>*

---

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraffau 69-71

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

11. Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 18 Hydref 2021.<sup>9</sup>
12. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ysgrifennu at y Gweinidog, at Weinidog Iechyd Llywodraeth y DU, Edward Argar AS, ac at ei randdeiliaid.<sup>10</sup>
13. Nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog ynglŷn â'r Memorandwm. Fodd bynnag, yn dilyn ein cyfarfod ar 18 Hydref, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am fanylion pellach ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â'r Memorandwm.<sup>11</sup> Ymatebodd y Gweinidog ar 28 Hydref, ac mae ein hystyriaeth o ymateb y Gweinidog wedi'i nodi'n fanwl isod.<sup>12</sup>
14. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 22 Tachwedd 2021.

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

15. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o'r fath gael ei osod fel arfer heb fod yn hwyrach na dwy wythnos ar ôl cyflwyno'r Bil i Senedd y DU. Cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2021, ond ni wnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm gerbron Senedd Cymru tan 1 Medi 2021. Rydym yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi dweud wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU yn araf iawn wrth ddarparu cymalau'r Bil drafft i Lywodraeth Cymru i'w hystyried a'u dadansoddi<sup>13</sup>.
16. Er ein bod yn cydnabod esboniad y Gweinidog y bu oedi cyn i Lywodraeth Cymru gael gwybodaeth hanfodol gan Lywodraeth y DU, rydym yn gwneud tri sylw pwysig.
17. Yn gyntaf, rydym wedi datgan yn flaenorol bod dull eang Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau'r DU i wneud darpariaeth i Gymru yn golygu ei bod yn hollbwysig cael trefniadau cydweithredu a chyfathrebu rhynglywodraethol da. Yn seiliedig ar ein hystyriaeth o

---

<sup>9</sup> Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Hydref 2021g

<sup>10</sup> Mae gohebiaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gael [ar wefan y Senedd](#)

<sup>11</sup> Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 20 Hydref 2021

<sup>12</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>13</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 19 Hydref 2021

---

femoranda cydsyniad deddfwriaethol hyd yma, ymddengys fod y cysylltiadau rhynglywodraethol yn llai na boddhaol, ac yn ddarniog ar y gorau. Mae oedi gan Lywodraeth Cymru wrth osod memoranda cydsyniad deddfwriaethol, boed hynny o ganlyniad i gysylltiadau rhynglywodraethol gwael neu fel arall, yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amser sydd ar gael i Senedd Cymru gynnal gwaith craffu hanfodol, hyd yn oed os yw'r craffu hwnnw'n gyfyngedig, mewn perthynas â memoranda o'r fath o fewn amserlenni nad oes gan y Senedd fawr ddim o reolaeth drostynt.

**18.** Yn ail, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd wythnosau ychwanegol i gwblhau dadansoddiad llawn a thrylwyr o'r Bil a'i effaith ar Gymru ynghyd ag ystyried unrhyw ofyniad am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd,<sup>14</sup> dylai fod mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd, a gallai hynny fod wedi bod yn bosibl.

**19.** Yn drydydd, ac yn gysylltiedig â'r ddau bwynt cyntaf, rydym yn tynnu sylw, fel yr ydym wedi ei wneud yn aml yn barod yn y Chweched Senedd, fod defnyddio Biliau'r DU i wneud cyfreithiau mewn meysydd datganoledig yn golygu na chaiff Aelodau etholedig y Senedd gyfle i graffu ar gynigion yn fanwl. Mae oedi cyn cyhoeddi Memoranda yn gwaethygu'r anfanteision hynny ymhellach, a hynny ar ben y ffaith bod y craffu y gellir ei wneud yn gyfyngedig.

**20.** Rydym wedi mynegi i Bwyllgor Busnes y Senedd ein pryderon ynghylch prydlondeb ac ansawdd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru gerbron y Senedd.<sup>15</sup>

**21.** Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn y Memorandwm o ran ei rhesymau dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil. Trafodir y materion hyn isod wrth inni ystyried cymalau penodol yn y Bil.

**22.** Rydym yn nodi bod rhai meysydd lle ceir anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran pa gymalau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, a thrafodir y materion hyn ymhellach mewn paragraffau yn nes ymlaen.

**23.** Rydym yn nodi hefyd fod y Bil yn rhoi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio cyfraith Cymru. Unwaith eto, trafodir y mater hwn yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

---

<sup>14</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 19 Hydref 2021

<sup>15</sup> Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 29 Hydref 2021

---

## Cymal 75

---

**24.** Mae Cymal 75 yn mewnosod adran 29A newydd yn *Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* (Deddf GIG 2006). Bydd yr adran newydd hon yn gosod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Iechyd Arbennig mewn perthynas â'u cyfrifon a'u trefniadau archwilio. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau i Awdurdodau Iechyd Arbennig ynghylch y ffurf y mae'n rhaid glynu ato wrth gadw cyfrifon. Diffinnir Awdurdodau Iechyd Arbennig yn yr adran hon fel Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau nad ydynt ond mewn perthynas â Lloegr, neu sy'n bennaf mewn perthynas â Lloegr, neu Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n arfer swyddogaethau ar sail trawsffiniol.

**25.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ac Awdurdod Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, gyda'r ddau ohonynt yn Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol a sefydlwyd o dan Ddeddf GIG 2006. Rhestrir y ddau ym mharagraff 9(2) o Atodlen 7B i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) fel eithriadau i baragraffau 8 a 10 o Atodlen 7B sy'n cynnwys cyfyngiadau ar y Senedd mewn perthynas â rhoi, gosod, dileu neu addasu swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus.

**26.** Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi clustnodi cymal 75 fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**27.** Wrth ystyried a oes angen cydsyniad ar gymal penodol, rydym wedi defnyddio'r 'prawf diben' a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i), h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd gan ein bod yn credu bod y darpariaethau perthnasol yng nghymal 75 yn dod o fewn diben datganoledig fel y darperir ar ei gyfer gan Reol Sefydlog 29(1).

## Cymal 85

---

**28.** Mae cymal 85 o'r Bil yn creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n darparu i'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (a elwir yn NHS Digital) sefydlu a gweithredu system wybodaeth am feddyginiaethau i ganiatáu ar gyfer creu cofrestrau meddyginiaeth ar draws y DU a gaiff eu dal yn ganolog.

**29.** Er bod cynhyrchion meddyginiaethol yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf 2006, mae'r pŵer a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu systemau gwybodaeth yn bŵer eang.

**30.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Senedd ddeddfu i roi rhai o'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 85 i Weinidogion Cymru (er na allai'r Senedd ddeddfu i gyflawni'r cyfan). Nodwn ei bod hefyd yn bosibl y gallai rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol osod swyddogaethau a/neu rwymedigaethau ar awdurdodau datganoledig Cymru.

**31.** Yn ein llythyr at y Gweinidog, gwnaethom ofyn am ddiweddariad ynghylch ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU, a gofyn am fanylion penodol unrhyw welliannau i'r Bil y mae'r Gweinidog wedi gofyn amdanynt. Wrth drafod cymal 85, dywedodd y Gweinidog wrthym fod ganddi nifer o bryderon, fel a ganlyn.

**32.** Dywedodd y Gweinidog fod y diben y gellir casglu gwybodaeth ar ei gyfer o dan y cymal hwn yn rhy eang, a'i fod yn ymestyn y tu hwnt i faterion diogelwch ac i feysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Nid yw'r Gweinidog o'r farn ei bod yn angenrheidiol i NHS Digital, sy'n gorff yn Lloegr, sefydlu system ar gyfer y DU gyfan. Yn hynny o beth, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddiwygio cymal 85 i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i'w galluogi hwy i sefydlu systemau cyfatebol i osgoi trefniadau sy'n cael eu gwneud heb gyfraniad Gweinidogion Cymru. Os nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno i'r cais hwn, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn i reoliadau gael eu gwneud.<sup>16</sup>

**33.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd y "gallai'r wybodaeth a fydd wedi ei chynnwys yn y systemau gael ei defnyddio'n eang – a hynny mewn ffordd y gellir ystyried nad yw'n addas mewn perthynas â chleifion Cymru". Mae'r Gweinidog wedi gofyn unwaith yn rhagor i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'i phryderon.<sup>17</sup>

**34.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog mewn perthynas â chymal 85, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ceisio diwygiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'i phryderon.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 85, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiadau y mae wedi'u ceisio yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU.

---

<sup>16</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>17</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---



## Cymalau 86 i 92

---

**35.** Mae cymalau 86 i 92 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio rheoliadau i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff perthnasol ac i ddirprwyo rhai o swyddogaethau iechyd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cyrff hynny. Caiff y cyrff perthnasol eu diffinio yng nghymal 86, ac maent oll yn Gyrff Iechyd Cyhoeddus Anadrannol, h.y. Cyrff Hyd Braich.

**36.** Mae cymal 89 o'r Bil yn rhoi pŵer Harri'r VIII i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu, dirymu neu ddiwygio darpariaeth i ddeddfwriaeth a wneir gan Senedd Cymru, a hynny drwy reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymalau 87 neu 88. O fewn darpariaethau'r Bil ei hun, nid oes unrhyw ofyniad penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad y Senedd cyn arfer y pŵer hwn. Fodd bynnag, byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio, ac felly byddai angen cydsyniad y Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**37.** Mae cymalau 90 a 91, sy'n ymwneud â chynlluniau trosglwyddo mewn cysylltiad â'r rheoliadau, hefyd yn ymestyn i Weinidogion Cymru. Mae cymal 92 yn gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru lle mae rheoliadau i'w gwneud wrth arfer y pwerau o dan adran 87 ac 88, os byddai'r rheoliadau'n gymwys yng Nghymru.

**38.** Mae Cymdeithas Hansard wedi codi pedwar prif bryder ynglŷn â'r pŵer yng nghymal 87 o'r Bil:

- “the [UK] Government is correct that there are comparable powers, and precedent, in the *Public Bodies Act 2011* (the 2011 Act), which also applies to a wider range of bodies than the power in clause 87 of this Bill. However, there are limitations to the powers in the 2011 Act that have not been applied in clause 87”;
- “the test that the Secretary of State must fulfil before the power in clause 87 can be exercised is not clear and proportionate”;
- “there is no requirement on the Secretary of State to lay, together with the regulations, a report on the consultation which must be conducted before the clause 87 power may be used”;

- “the scope of the power in clause 87 is wider than the intended use put forward by the Department [of Health and Social Care] in the Delegated Powers Memorandum”.<sup>18</sup>

**39.** Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog wrthym am ei phryderon ynglŷn â'r cymalau hyn. Dechreuodd trwy ddweud:

*“Mae rhai o'r Cyrff Hyd Braich sydd o fewn cwmpas y pŵer yn ymgymryd â swyddogaethau yng Nghymru, mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfarwyddo mewn perthynas â rhai swyddogaethau ac mae gan Weinidogion Cymru hawliau i benodi neu enwebu cynrychiolaeth Gymreig iddynt. Felly, gallai trosglwyddo neu uno swyddogaethau'r cyrff hyn arwain at erydu pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cyrff hynny neu effeithio ar swyddogaethau'r corff hwnnw yng Nghymru.”<sup>19</sup>*

**40.** O ran y pŵer sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddirprwyo swyddogaethau penodol i'r Cyrff Hyd Braich hyn, dywedodd y Gweinidog:

*“...cafwyd sicrwydd, mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol megis Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, nad yw hyn yn cynnwys swyddogaethau y cyfarwyddir hwy gan Weinidogion Cymru i'w harfer mewn perthynas â Chymru.”<sup>20</sup>*

**41.** Aeth y Gweinidog ymlaen i drafod pryderon penodol ynglŷn â chymalau 90 a 92:

*“Mae'r cymalau ynghylch trosglwyddo swyddogaethau rhwng Cyrff Hyd Braich penodedig yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar reoliadau a wneir o dan gymalau 87 neu 88 os byddai'r rheoliadau hynny'n gymwys yng Nghymru. (...) rwyf wedi gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan y pwerau ... fod gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn diogelu'r setliad datganoli. (...)*

*Mae cymal 90 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau eraill i Weinidogion Cymru neu Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Rwyf wedi gofyn am i Weinidogion Cymru a*

---

<sup>18</sup> [Cymdeithas Hansard, 'The Health and Care Bill: Delegated Powers, 3 Medi 2021](#)

<sup>19</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>20</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---

*chyrrff Cymru gael eu tynnu o ddarpariaeth Cymal 90 ac rwyf yn obeithiol y bydd hynny'n digwydd."*<sup>21</sup>

**42.** Roedd y Gweinidog hefyd yn cydnabod y pŵer Harri VIII yng nghymal 89 a fyddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy wneud rheoliadau o dan gymalau 87 neu 88, wneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau mewn Bil neu Ddeddf Senedd Cymru. Trafodir hyn ymhellach mewn paragraffau yn nes ymlaen.

**43.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog mewn perthynas â chymalau 86 i 92, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ceisio diwygiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'i phryderon.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymalau 86 i 92, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiadau y mae wedi'u ceisio yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU.

**44.** Mewn perthynas â'r pŵer sy'n cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddirprwyo swyddogaethau penodedig i Gyrff Hyd Braich, rydym yn nodi datganiad y Gweinidog bod sicrwydd wedi'i roi gan Lywodraeth y DU nad yw hyn, mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig, yn cynnwys swyddogaethau a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

**45.** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o bryderon a godwyd yn flaenorol gennym ni a Gweinidogion eraill<sup>22</sup> yn Llywodraeth Cymru ynghylch y ffaith nad yw sicrwydd o'r fath yn rhwymol. Yn wir, yn ddiweddar mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi rhannu â ni egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU, gan nodi: "Dylid osgoi cytundebau rhynglywodraethol anneddfwriaethol, megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ac ymrwymadau wrth y blwch dogfennau (*despatch box*), sy'n cyd-fynd â Biliau gan mai dim ond i raddau y maent yn rhwymo Llywodraeth bresennol y DU, ac nad ydynt yn rhwymo Llywodraethau'r DU yn y dyfodol."<sup>23</sup> Yn unol â'r egwyddor hon, nid yw'r Gweinidog ei hun yn fodlon â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU os nad yw'n rhwymol mewn perthynas â chymal 123 o'r Bil (a drafodir yn y paragraffau isod).

---

<sup>21</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>22</sup> Gweler [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#), Mehefin 2021

<sup>23</sup> [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 22 Hydref 2021

---

**46.** O'r herwydd, nid yw'n glir inni pam yr ymddengys fod y Gweinidog yn fodlon â'r sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn hytrach nag ymrwymiad deddfwriaethol ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'i phryderon ynghylch cymal 87 fel na all yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau yn y cymal hwnnw i drosglwyddo a/neu ddirprwyo swyddogaethau mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig lle cafodd y swyddogaethau hynny eu cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

## Cymal 120

---

**47.** Mae cymal 120 yn diwygio *Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019* (Deddf 2019) i alluogi Llywodraeth y DU i weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol gyda gwledydd, tiriogaethau a sefydliadau rhyngwladol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir. Bydd cymal 120 hefyd yn ailenwi Deddf 2019 yn Ddeddf Gofal Iechyd (Cytundebau Rhyngwladol) 2019.

**48.** Yn wreiddiol, cyflwynwyd Deddf 2019 fel y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) ond newidiwyd ei deitl yn ddiweddarach yn dilyn diwygiadau a ddyluniwyd i gyfyngu'r pwerau yn y Bil a oedd yn cyfyngu'r ardal ddaearyddol y mae'r pwerau yn gymwys iddynt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unig.

**49.** Mae cymal 120 yn ehangu cwmpas y pwerau presennol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gofal iechyd cyfatebol, drwy ddileu'r cyfyngiadau tiriogaethol hyn. Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a ddarperir mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, ac i wneud rheoliadau cysylltiedig, hefyd yn cael eu diwygio.

**50.** Mae cymal 120 yn ehangu'r ardal ddaearyddol lle gellir defnyddio'r pwerau dros dro presennol sydd ar hyn o bryd yn galluogi Llywodraeth y DU i awdurdodi taliadau yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir am bum mlynedd ar ôl Brexit, ac mae'n gwneud y pwerau hynny'n rhai parhaol. Cafodd y trefniant hwn ei sefydlu yn seiliedig ar yr angen am gyflymder a hyblygrwydd wrth i'r DU ymadael â'r UE.<sup>24</sup>

**51.** Mae cymal 120 yn galluogi Llywodraeth y DU i weithredu trefniadau gofal iechyd yn effeithiol gyda gwledydd, tiriogaethau a sefydliadau rhyngwladol eraill gan ddefnyddio is-

---

<sup>24</sup> Gweler Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (a newidiwyd i Fil Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir), Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2019, paragraff 11

ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae hyn yn gymwys mewn sefyllfaoedd lle mae gan y DU gytundeb gofal iechyd rhyngwladol gyda pharti arall. Os oes cytundeb ar waith, gellid defnyddio cymal 120 i ariannu gofal iechyd sy'n dod o fewn neu y tu allan i gwmpas y cytundeb hwnnw.

**52.** Bydd yn dal yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau perthnasol, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan y darpariaethau yn Neddf 2019 a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth atodol<sup>25</sup> y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**53.** O ran y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth uchod, nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r fersiwn derfynol sy'n adlewyrchu'r Bil fel y'i deddfwyd. Manteisiwn ar y cyfle i dynnu sylw at y mater hwn gan fod y fersiwn a gynhwyswyd mewn gohebiaeth rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd a'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd yn adlewyrchu'r gwaith o ddrafftio'r Bil yn ystod ei hynt drwy Senedd y DU. Yn sgil diwygiadau dilynol a wnaed i'r Bil i gyfyngu ar ei bwerau, cafwyd Deddf nas rhagwelwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi copi i'r Pwyllgor a holl Aelodau'r Senedd o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â *Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019*, a chadarnhau bod testun y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adlewyrchu cwmpas terfynol, cyfyngedig y Bil fel y'i cytunwyd gan Senedd y DU.

**54.** Mae'r cymal hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 2019, gan gynnwys galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus a/neu eu dirprwyo iddynt, wrth wneud rheoliadau i wneud darpariaeth er mwyn gweithredu cytundebau gofal iechyd. Mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn cynnwys Gweinidogion Cymru. Gallai'r Senedd ddeddfu i osod swyddogaeth debyg ar Weinidogion Cymru.

**55.** Er bod paragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006 yn darparu bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn fater a gadwyd yn ôl, nid yw cadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu o fewn meysydd datganoledig yn fater wedi ei gadw'n ôl. Gan fod y Bil yn ymwneud ag iechyd - sy'n fater datganoledig - byddai'r darpariaethau a fewnosodir gan gymal 120 ynghylch gwneud taliadau am ofal iechyd dramor er mwyn gweithredu cytundebau gofal

---

<sup>25</sup> Gweler [Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd](#), 28 Chwefror 2019

iechyd yn dod o fewn eithriad i'r mater a gadwyd yn ôl, ac felly byddai o fewn cymhwysedd y Senedd.

**56.** Mae Cymdeithas Hansard hefyd wedi codi pryderon ynglŷn â chymal 120 o'r Bil, gan nodi:

- "clause 120 would see a further departure from the constitutional convention on the means of implementing international agreements in domestic law";
- "clear and proportionate criteria for what constitutes 'exceptional circumstances' have not been provided";
- "existing safeguards in the current section 2 [of the 2019 Act] are to be removed and the Department [of Health and Social Care] has not addressed some of the original concerns levelled at the Healthcare (International Agreements) Bill".<sup>26</sup>

**57.** Wrth roi diweddariad ar y trafodaethau rhynglywodraethol a manylion unrhyw ddiwygiadau a geisir i'r Bil, dywedodd y Gweinidog wrth drafod cymal 120:

*"Y prif bryder o ran Cymal 120 yw'r gofyniad i ymgynghori'n unig â Gweinidogion Cymru ar reoliadau drafft sy'n gweithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn golygu, pe bai gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch pwysau afresymol neu heb ei hariannu ar y GIG yng Nghymru sy'n deillio o gytundebau o'r fath, na fyddai'r pryderon hynny yn cael eu hystyried bob amser o bosibl.*

*Mae'r cymal hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a/neu eu dirprwyo iddynt, wrth wneud rheoliadau i wneud darpariaeth er mwyn gweithredu cytundebau gofal iechyd."<sup>27</sup>*

**58.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt ynghylch geiriad cymal 120 a fyddai'n mynd i'r afael â'i phrif bryderon a'i bod yn "gobeithio y gellir cyrraedd sefyllfa foddhaol".<sup>28</sup>

**59.** Gwnaethom dynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith y byddai cymal 120 o'r Bil yn golygu gwyrto oddi wrth y confensiwn cyfansoddiadol drwy ganiatáu i Lywodraeth y DU roi cytundebau

---

<sup>26</sup> Cymdeithas Hansard, 'The Health and Care Bill: Delegated Powers', 3 Medi 2021

<sup>27</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>28</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---

rhyngwladol ar waith sy'n gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig drwy is-ddeddfwriaeth yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth sylfaenol

**60.** Gwnaethom hefyd awgrymu y byddai'r dull newydd hwn o graffu ar gytundebau rhyngwladol yn cyfyngu'n uniongyrchol ar gyfranogiad y Senedd mewn mater o fewn cymhwysedd y Senedd.

**61.** Yn ei llythyr, ymatebodd y Gweinidog:

*"Er nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddefnyddio pwerau Harri VIII mewn Biliau, rwy'n credu mai mater i Senedd y DU ei ystyried wrth graffu ar y Bil hwn yw hwn. Rôl Llywodraeth Cymru yw ceisio diogelu'r setliad datganoli os yw cynigion mewn Bil gan y DU yn effeithio arni neu ar gyrff Cymreig, neu os oes potensial iddynt wneud hynny.*

*Nid yw cymal 120 fel y cyfryw yn cyflwyno dull newydd o graffu ar gytundebau gofal iechyd sy'n eithrio craffu gan y Senedd ar fater datganoledig. Mae cytundebau rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac maent yn rhwymo'r DU gyfan i weithredu arnynt a glynu wrthynt, waeth beth fo'r ddeddfwriaeth a wneir ganddynt – ac yn wir gall Llywodraeth y DU ymgymryd â hwy heb eu gwneud o dan unrhyw ddeddfwriaeth benodol. O ran cytundebau gofal iechyd, mae gan y DU nifer o gytundebau gofal iechyd hirsefydlog sydd ar waith gyda gwledydd ar wahân i wledydd yr UE nad oes iddynt sail ddeddfwriaethol benodol ac felly nid ydynt wedi bod – ac ni fyddant o reidrwydd – yn ddarostyngedig i waith craffu gan y Senedd. Felly, er bod gennyf bryderon ynghylch goblygiadau defnyddio'r pwerau yng Nghymal 120 ar gyfer GIG Cymru, nid wyf yn cytuno bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn newid y sefyllfa o ran craffu gan y Senedd ar gytundebau gofal iechyd, gan nad oes hawl awtomatig o'r fath ar hyn o bryd.*

*I fod yn glir, bydd y darpariaethau yn y Bil hwn yn estyn Deddf Gofal Iechyd (Ardal Economaidd Ewrop a Threfniadau'r Swistir) 2019 i weddill gwledydd y byd. Mewn rhai ffyrdd, felly, drwy ddeddfu ym maes cytundebau gofal iechyd gweddill y byd, mae wedi rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar bwerau sylfaenol o'r fath mewn maes nad oedd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn ymwneud ag ef o'r blaen. Wedi dweud hynny, rwyf yn dal i bryderu am y gallu yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau sy'n gweithredu cytundeb gofal iechyd sy'n effeithio ar Gymru heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda DHSC ar y mater hwn er mwyn*

*ymdrin â'm prif bryderon, ac fel y dywedais yn gynharach rwyf yn obeithiol y gellir cyrraedd sefyllfa foddhaol."*<sup>29</sup>

**62.** Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan ymateb y Gweinidog i'r cwestiynau yn ein llythyr ynghylch cymal 120 o'r Bil ac, mewn rhai agweddau, rydym yn siomedig bod y Gweinidog yn ymddangos i fabwysiadu safbwynt o'r fath.

**63.** Dywed y Gweinidog mai rôl Llywodraeth Cymru yw ceisio diogelu'r setliad datganoli, ac er nad ydyw'n cefnogi pwerau Harri VIII o fewn cymal 120, mae o'r farn bod hwn yn fater i Senedd y DU. Nid yw'n glir inni pam y mae ceisio diogelu setliad datganoli Cymru yn rhywbeth sy'n groes i geisio cyfyngu ar allu Llywodraeth y DU i ddiwygio deddfwriaeth ddomestig ar draws y DU trwy reoliadau, fel y mae'r Gweinidog wedi ei awgrymu. At hynny, o ystyried mai Bil y DU sy'n cael ei ddefnyddio i wneud darpariaeth a fyddai'n gymwys yng Nghymru, gan arwain at gyfyngu ar rôl ffurfiol y Senedd i'r broses cydsyniad deddfwriaethol, mae'n anffodus nad ymddengys fod y Gweinidog yn dangos ei bod yn barod i ddiogelu hefyd y setliad datganoli yn ei ystyr lawnaf a fyddai'n cynnwys rôl y Senedd fel y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

**64.** Nid ydym yn cytuno â barn y Gweinidog nad yw cymal 120 o'r Bil yn newid y sefyllfa o ran gallu'r Senedd i graffu ar gytundebau gofal iechyd.

**65.** Mae confensiwn cyfansoddiadol wedi dod i'r amlwg, lle defnyddir deddfwriaeth sylfaenol ar adegau pan fydd cytundebau rhyngwladol yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig. Mae hyn yn rhoi'r cyfle mwyaf i Senedd y DU wneud gwaith craffu. Os yw deddfwriaeth o'r fath yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig, fel yw'r achos â chytundebau gofal iechyd, mae angen cydsyniad Senedd Cymru, ac mae angen i'r Senedd graffu yn unol â hynny. Nid yw'r Bil yn cadw at y confensiwn hwn, wrth iddo sefydlu'r arfer o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i weithredu cytundebau gofal iechyd, gan gyfyngu ar rôl Senedd y DU, a thrwy hynny, gyfyngu ar rôl y deddfwrfeydd datganoledig mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

**66.** Rydym yn siomedig ei bod yn ymddangos bod dull y Gweinidog yn methu ag eirioli i'r Senedd chwarae ei rôl lawn wrth ddiogelu'r setliad datganoli yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â materion datganoledig. O'r herwydd, rydym o'r farn bod dull y Gweinidog yn anfoddhaol. Rydym hefyd yn cael ein synnu gan farn y Gweinidog fod dull Llywodraeth y DU o ddeddfu drwy'r Bil hwn wedi rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar bwerau sylfaenol. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn gwir adlewyrchu'r dulliau craffu sydd ar gael i Senedd Cymru mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.

---

<sup>29</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---



**67.** Rydym yn cydnabod bod rhai amgylchiadau lle y gellid diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn rhinwedd cymal 120, ond serch hynny, rydym unwaith yn rhagor yn nodi y byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio. Felly byddai angen cydsyniad y Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**68.** Fel y nodwyd gan Gymdeithas Hansard, mae cymal 120 yn darparu cwmpas eang i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau am ofal iechyd sydd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn 'amgylchiadau eithriadol' nad ydynt wedi'u diffinio gan y Bil.

**69.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pŵer hwn, yn ei barn hi, yn un angenrheidiol ac "na fyddai'n ddoeth cyfyngu'r defnydd o'r pŵer ar wyneb y Bil i amgylchiadau penodol"<sup>30</sup>. Ychwanegodd y Gweinidog, "sut bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys Gweinidogion Cymru, a Llywodraeth y DU yn unig fydd yn gyfrifol am y costau".

**70.** Yng ngoleuni bwriad gwreiddiol Senedd y DU i gyfyngu ar y pwerau a ddarperir gan Ddeddf 2019 yn ystod ei daith drwy Senedd y DU, rydym yn synnu bod y Gweinidog yn cefnogi darpariaethau'r Bil i beidio â chyfyngu ar ddefnydd o bwerau o'r fath.

**71.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog, ond ystyriwn nad yw'n unol ag egwyddorion da wrth ddeddfu. O ystyried natur eang y pŵer yng nghymal 120, rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan Gymdeithas Hansard<sup>31</sup> y byddai'n briodol cynnwys prawf clir a chymesur ar gyfer yr hyn sy'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn sy'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' yng nghymal 120.

**72.** I grynhoi, rydym o'r farn y byddai cymal 120 o'r Bil:

- yn golygu gwyro oddi wrth y confensiwn cyfansoddiadol o weithredu cytundebau rhyngwladol sy'n gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, ynghyd â'r gwaith craffu sydd ynghlwm wrth hynny;
- yn cynnig cwmpas eang i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau gofal iechyd ar gyfer gofal iechyd sydd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn

---

<sup>30</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

<sup>31</sup> Cymdeithas Hansard, 'The Health and Care Bill: Delegated Powers', 3 Medi 2021

---

“amgylchiadau eithriadol”, nad ydynt wedi’u diffinio yn y Bil, ac rydym yn nodi nad oes cyfyngiadau ar y swm na’r math o ofal iechyd a ariennir;

- yn lleihau rôl gyfyngedig bresennol Senedd y DU wrth graffu ar gytundebau rhyngwladol a'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r cytundebau hynny;
- yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yn y broses graffu ar gytundebau rhyngwladol y DU, gan gynnwys y rheini mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

## Cymal 123

---

**73.** Mae cymal 123 o'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 60 ac Atodlen 3 i *Ddeddf Iechyd 1999* (Deddf 1999) sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynau iechyd. Mae hyn yn cynnwys diwygiad a fyddai'n newid y ddarpariaeth bresennol gan ganiatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud yn rheoleiddio “unrhyw broffesiwn arall” sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion, fel bod y cyfeiriad at broffesiwn yn cael ei drin fel pe bai'n cynnwys “unrhyw grŵp o weithwyr sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion”, p'un a ydynt yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel proffesiwn ai peidio.

**74.** Er bod rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd yn fater sydd wedi ei gadw yn ôl o dan Ddeddf 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod rheoleiddio personau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

**75.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod swyddogion Llywodraeth y DU wedi cynnig y dylid diwygio cymal 123 i gynnwys gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wedi'i gefnogi gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, pe bai Llywodraeth y DU yn ceisio rheoleiddio o dan adran 60 o Ddeddf 1999 mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Cadarnhaodd y Gweinidog:

*“Rwyf wedi gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio fel y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i reoliadau o'r fath. Mae trafodaethau cadarnhaol yn y maes hwn yn parhau.”<sup>32</sup>*

**76.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog mewn perthynas â chymal 123, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ceisio diwygiad i'r Bil i fynd i'r afael â'i phryderon.

---

<sup>32</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---

**77.** Nodwn ymhellach yr ymddengys nad yw Llywodraeth y DU wedi diystyru deddfu yn y maes datganoledig hwn.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 123, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiad y mae wedi ei geisio yn cael ei gyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU.

### **Cymal 125 ac Atodlen 16**

---

**78.** Mae cymal 125 yn cyflwyno Atodlen 16 i'r Bil sy'n diwygio *Deddf Cyfathrebu 2003* (Deddf 2003) i gyfyngu ar hysbysebu rhai cynhyrchion bwyd a diod mewn perthynas â'r DU. Mae'r cynhyrchion hyn i'w nodi trwy broses dau gam: yn gyntaf mae angen eu cynnwys yn un o'r categorïau cynnyrch a fydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac yna bydd angen cymhwyso'r 'canllawiau cymwys' - y 'Canllawiau Technegol ar Broffilio Maethynnau'. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r diffiniad o 'ganllawiau cymwys'.

**79.** Mae elfen o Atodlen 16 sy'n ymwneud â gwasanaethau rhaglenni teledu yn gosod rhwymedigaeth ar OFCOM – corfforaeth statudol ac awdurdod rheoleiddio a chystadleuaeth y DU ar gyfer y diwydiannau darlledu, telathrebu a phost – i osod safonau sy'n gwahardd gwasanaethau rhaglenni teledu a ddarperir rhwng 5.30am a 9pm rhag cynnwys hysbysebion ar gyfer cynhyrchion afiachus adnabyddadwy, yn amodol ar eithriadau. Mae Atodlen 16 hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n gwahardd hysbysebu'r cynhyrchion hyn ar raglenni teledu ar alw a ddangosir rhwng 5.30am a 9.00pm, ac mae'n gwahardd person rhag gosod hysbyseb ar gyfer y cynhyrchion hyn ar-lein. Mae'r ddau waharddiad hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer eithriadau pellach.

**80.** Mae cymal 125 hefyd yn cynnwys pŵer canlyniadol. Mae'n diwygio Deddf 2003 i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol trwy reoliadau sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu darpariaethau Deddf neu Fil Senedd Cymru, neu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ddarpariaethau o'r fath neu o dan Ddeddf Senedd y DU. Pwer Harri VIII yw'r pŵer hwn felly, ac mae'n gyfyngedig i ymestyn y gwaharddiad ar osod neu drefnu hysbysebu ar-lein i bersonau nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o dan Ran C o Ddeddf 2003.

**81.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi clustnodi'r cymal hwn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**82.** Nid oes gan y Senedd gymhwysedd i osod swyddogaethau ar OFCOM oni bai fod Gweinidog perthnasol y Goron yn cydsynio i ddarpariaeth o'r fath, ac ni all ddeddfu at

ddibenion sy'n ymwneud â gwasanaethau darlledu a'r rhyngwrwyd (gan fod y rhain yn feysydd wedi eu cadw'n ôl). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn dod o fewn cymhwysedd Senedd Cymru gan fod diben y darpariaethau'n ymwneud yn bennaf ag iechyd y cyhoedd (hynny yw, lleihau gordewdra ymhlith y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd) yn hytrach na gwasanaethau darlledu a'r rhyngwrwyd. Nid yw unrhyw gysylltiad â'r meysydd hynny a gadwyd yn ôl ond yn codi yn sgil diben iechyd y cymal, sef y prif ddiben, sy'n arwain at leihau nifer yr hysbysebion am fwydydd afiachus y mae plant yn eu gweld. Ystyrir bod y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**83.** Nid oes unrhyw ofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad y Senedd na Gweinidogion Cymru cyn arfer y pŵer Harri VIII hwn y gellid ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth y Senedd.

**84.** Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog:

*"Er bod prif gynnwys y cymalau sy'n ymdrin â chyfyngiadau ar hysbysebu bwydydd llai iach ar sail pedair gwlad yn cael ei groesawu, mae pŵer canlyniadol wedi'i gynnwys sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio deddfwriaeth Cymru. Fel yn achos yr un ddarpariaeth mewn perthynas â Chyrff Hyd Braich, mae hwn yn fater sy'n cael ei drafod gyda DHSC.. Fodd bynnag, dylid nodi bod hwn yn faes o'r Bil nad yw DHSC yn derbyn ei fod wedi'i ddatganoli ac nad yw'n cytuno y dylai fod yn ddarostyngedig i ofyniad am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd."*<sup>33</sup>

**85.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog mewn perthynas â chymal 125 ac Atodlen 16 a bod y trafodaethau â Llywodraeth y DU yn parhau.

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd gan ein bod yn credu bod y darpariaethau perthnasol yng nghymal 125 ac Atodlen 16 yn dod o fewn diben datganoledig fel y darperir ar ei gyfer gan Reol Sefydlog 29(i).

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 125 ac Atodlen 16 i'r Bil.

---

<sup>33</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

## Cymal 130

---

**86.** Mae cymal 130 o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r Bil. Gall hyn gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu, dirymu neu addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir gan, neu o dan, Ddeddf neu Fil Senedd Cymru. Pwer Harri VIII ydyw felly.

**87.** Mae hwn yn ddarpariaeth ar draws y Bil, sy'n golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer canlyniadol hwn mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Bil er mwyn diwygio deddfwriaeth y Senedd heb ymgynghori â'r Senedd na Gweinidogion Cymru. Mae'r cymal hwn yn debyg i gymalau 89(6) a 125.

**88.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa mor bryderus oedd hi ynglŷn â chymal 130, o ystyried ei fod yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau a fyddai'n gwneud darpariaeth ganlyniadol gan olygu y gellid defnyddio'r pŵer i ddiwygio Deddfau neu Filiau a basiwyd gan y Senedd ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru.

**89.** Rydym yn nodi ymateb y Gweinidog ei bod yn "parhau i drafod y pryderon hyn gyda DHSC [yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol] ac yn archwilio opsiynau i gyrraedd sefyllfa dderbyniol".<sup>34</sup>

**90.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi clustnodi cymal 130 fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaethau hon yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly mae angen cydsyniad.

**Casgliad 3.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd gan ein bod yn credu bod y darpariaethau perthnasol yng nghymal 130 yn dod o fewn diben datganoledig fel y darperir ar ei gyfer gan Reol Sefydlog 29(i).

## Y gallu i ddiwygio Deddfau a Biliau Senedd Cymru ac, yn benodol, Deddf 2006

---

**91.** Fel yr ydym yn ei grybwyll uchod mewn perthynas â chymalau 89, 125 a 130, mae'r Bil yn cynnwys pwerau Harri VIII eang a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddefnyddio rheoliadau i ddiwygio Deddfau a Biliau Senedd Cymru. Nid ydym yn credu bod hyn yn dderbyniol.

**92.** Rydym wedi nodi uchod mewn paragraffau blaenorol y byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio, ac y byddai angen cydsyniad y

---

<sup>34</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**93.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau nad oes cyfyngiadau ar wyneb y Bil sy'n atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn i ddiwygio Deddf 2006.

**94.** Dywedodd y Gweinidog:

*"Nid oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar wyneb y Bil, felly mewn theori gallai Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau canlyniadol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru gan eu bod yn caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sy'n cynnwys Deddf y DU ac mae Deddf Llywodraeth Cymru yn un o Ddeddfau'r DU. Fodd bynnag, mae'r pwerau wedi'u cyfyngu i newidiadau canlyniadol, felly byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau fod yn ganlyniadol i ddarpariaethau'r Bil neu reoliadau a wneir oddi tanynt. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y gellid dadlau y byddai angen diwygio unrhyw ddarpariaeth sylweddol yn Deddf Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Bil hwn."*<sup>35</sup>

**Casgliad 4.** Ni ddylai rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

---

<sup>35</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Hydref 2021

---